

## PHILLIPS, EVAN (1829 - 1912), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd

**Enw:** Evan Phillips  
**Dyddiad geni:** 1829  
**Dyddiad marw:** 1912  
**Priod:** Anne Phillips (née Jones)  
**Plentyn:** John Phillips  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Beynon

Ganwyd 22 Hydref 1829 mewn bwthyn o'r enw Milestone yn ardal Capel y Drindod. Yr oedd ei fam yn ferch i gefnder [Christmas Evans](#). Dechreuodd bregethu yn eglwys Capel y Drindod pan oedd ychydig dros 20 oed. Treuliodd ddwy flynedd yn ysgol Atpar, Castellnewydd Emlyn, ac yn 1853 derbyniwyd ef i Goleg Trefeca. Yn nechrau hydref 1859 priododd Anne Jones, o deulu Cwrcoed, ger Penrhiwllan. Wedi rhai misoedd fel gofalwr am y seiadau yn Llannon symudodd i fyw i Gastellnewydd Emlyn; ordeiniwyd ef yng Nghastell Nedd yn Awst 1860; yn yr un flwyddyn derbyniodd alwad i fugeilio eglwys Bethel, Castellnewydd Emlyn, ac fel gweinidog Bethel y treuliodd weddill ei oes. Etholwyd ef yn llywydd ei gymdeithasfa yn 1889, ac yn llywydd y gymanfa gyffredinol yn 1899. Yr oedd yn un o bregethwyr mawr ei oes. Oherwydd newydd-deb a disgleirdeb ei ddrychfeddyliau, naturioldeb ei ddarluniau, ynghyd â melyster ei ddawn, enillodd 'y pregethwr ugain munud' le arbennig iddo'i hun. Nodweddid ei bregethau gan gyfuniad o ddychymyg y bardd, treiddgarwch yr athronydd, a thanbeidrwydd yr efengyllydd. Bu farw 29 Medi 1912.

### Awdur

Y Parchedig Robert Beynon, (1881 - 1953)

### Ffynonellau

'[Y Parch. Evan Phillips: \(80ain mlwydd oed, Hydref, 1909\)](#)*Y Geninen*, Hydref 1910, tt.264-268

*Y Geninen* Ionawr 1911

J. J. Morgan, *Cofiant Evan Phillips Castell Newydd Emlyn* (1930)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20746779](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

